



## PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG

### COFNODION Y CYFARFOD O BELL A GYNHALIWDYD DRWY MICROSOFT TEAMS NOS MAWRTH 2 TACHWEDD 2021 AM 5.30PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd T. Parry - Cadeirydd  
Y Cynghorydd C. Andrews - Is-gadeirydd

Y Cynghorwyr:

Mrs E.M. Aldworth, C. Andrews (Is-gadeirydd), P. J. Bevan, A. Collis, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, D. Havard, M. P. James, B. Miles, Mrs T. Parry (Cadeirydd) a J. E. Roberts.

Y Cynghorydd R. Whiting, (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden)

Ynghyd â:

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), L. Thomas (Ysgolion yr 21ain Ganrif - Prif Swyddog), P. O'Neill (Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuencid), S. Mutch (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgorau) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgorau).

Hefyd yn bresennol: -

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Addysg Archesgobaeth Gatholig Caerdydd) a Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-Lywodraethwyr).

Hefyd yn bresennol:

Cynrychiolwyr y Gwasanaeth Ieuencid.

### TREFNIADAU RECORDIO

Atgoffodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei recordio ac y byddai ar gael i'w weld drwy wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. [Cliciwch yma i'w wyllo.](#)

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr W. David, D. T. Hardacre, Mrs B. A. Jones, Mrs G. D. Oliver a J. Simmonds.

## **2. DATGAN BUDDIANNAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant ar ddechrau'r cyfarfod nac yn ystod y cyfarfod.

## **3. COFNODION – 21 MEDI 2021**

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021 (rhifau 1-10 yn y cofnodion) fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

## **4. YSTYRIED UNRHYW FATER A GYFEIRIR AT Y PWYLLGOR CRAFFU YN UNOL Â'R WEITHDREFN GALW I MEWN**

Ni chyfeiriwyd unrhyw faterion at y Pwyllgor Craffu yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.

## **5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR CRAFFU AR ADDYSG**

Cyflwynodd y Swyddog Craffu yr adroddiad a oedd yn amlinellu manylion Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2021 a mis Mawrth 2022 ac roedd yn cynnwys yr holl adroddiadau a nodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y Flaenraglen Waith, ochr yn ochr â Blaenraglen Waith y Cabinet, cyn ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol adroddiad y Cynnig Galwedigaethol, a drefnwyd ar gyfer cyfarfod arbennig y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhelir ar 2 Rhagfyr 2021.

Yn ystod y drafodaeth, cynigiwyd y dylid ychwanegu adroddiad ar ddarpariaeth athrawon Cyfrwng Cymraeg at Flaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg. Gofynnodd yr Aelodau hefyd am adroddiad ar les disgyblion ar ôl y cyfyngiadau symud, gan gynnwys iechyd meddwl a lles.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar yr adroddiadau ychwanegol a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion. Drwy bleidlais ar Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor.

## **6. ADRODDIADAU'R CABINET**

Nid oedd yr un o adroddiadau'r Cabinet a restrwyd ar yr agenda wedi'u galw ymlaen i'w trafod yn y cyfarfod.

### **ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

## **7. DIWEDDARIAD PEILOT Y GWASANAETH IEUENCTID - CYFLWYNIAD**

Cafodd y Pwyllgor Craffu gyflwyniad ar sut y gwnaeth Gwasanaeth Ieuencid Caerffili gefnogi pobl ifanc yn ystod pandemig Covid. Rhoddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuencid gyflwyniad i'r Gwasanaeth Ieuencid, gan amlinellu eu hymateb i Covid ac effaith eu gwaith, a thynnodd sylw at ble y gwnaed y gwahaniaethau. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith bod y Gwasanaeth Ieuencid wedi canolbwyntio ar y bobl ifanc agored i niwed a oedd eisoes yn cael eu cefnogi. Dangoswyd ffilm i'r aelodau a gynhyrchwyd gan y bobl ifanc a'u gweithwyr Ieuencid a oedd yn tynnu sylw at brofiadau'r bobl ifanc yn ystod Covid, o ddetholiad o brosiectau'r gwasanaeth Ieuencid.

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuencid ddau berson ifanc i'r Pwyllgor Craffu, a rannodd eu profiadau o sut beth oedd cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Ieuencid yn ystod y cyfnod clo. Diolchodd yr Aelodau i'r bobl ifanc am fynychu'r cyfarfod a rhannu eu profiadau.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch cyfleoedd galwedigaethol, dywedodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuencid wrth y Pwyllgor Craffu fod cynlluniau i ganoli gwybodaeth am ddatblygiad galwedigaethol i bobl ifanc a hefyd wedi cadarnhau bod cyfleoedd, megis hyfforddeiaethau a phrentisiaethau, yn cynyddu.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, rhoddodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuencid y wybodaeth ddiweddaraf am adeilad newydd Gwasanaeth Ieuencid Caerffili ym Mharc Virginia yng Nghaerffili. Hysbyswyd yr Aelodau y bydd yr adeilad yn arwyddocaol iawn i'r Gwasanaeth Ieuencid gan mai dyma fydd canolbwynt gwaith Ieuencid ardal Basn Caerffili, gan wasanaethu tua 5,000 o bobl ifanc. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, hysbyswyd y Pwyllgor Craffu fod gan y Gwasanaeth Ieuencid bartneriaeth sefydlog gyda'r Urdd a'r Fenter Iaith. Nodwyd bod cyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i fwrw ymlaen â Strategaeth Gwaith Ieuencid y Gymraeg a bydd Clwb Ieuencid Cymraeg pwrpasol yn cael ei agor ym Mharc Virginia.

Nododd aelodau'r Pwyllgor Craffu y cyflwyniad a diolchwyd i'r Uwch Reolwr Gwasanaeth Ieuencid a'i dîm am eu holl waith caled yn cefnogi pobl ifanc, ac yn enwedig pobl ifanc sy'n agored i niwed, yn ystod Covid.

**8. RHAGLEN BAND B YSGOLION A CHOLEGAU'R 21AIN GANRIF - YMGYNGHORIAD MEWN PERTHYNAS Â CHYNIGION AR GYFER YSGOL IAU LLANCAEACH/YSGOL FABANOD LLANFABON, YSGOL GYNRADD PLASYFELIN A CHANOLFAN I DDYSGWYR SY'N AGORED I NIWED**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad i ymgynghori'n swyddogol ag Aelodau mewn perthynas â chynigion Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif ar gyfer Ysgol Iau Llancaeath / Ysgol Fabanod Llanfabon, Ysgol Gynradd Plasyfelin a Chanolfan Dysgwyr Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion). Dywedwyd wrth yr Aelodau fod mwy o fanylion am bob un o'r cynigion wedi'u cynnwys yn y dogfennau ymgynghori llawn sydd wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Mewn ymateb i bryderon Aelod ynghylch cynlluniau ar gyfer adeilad 2 lawr fel rhan o gynigion uno Ysgol Iau Llancaeath/Ysgol Fabanod Llanfabon, rhoddodd Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif sicrwydd y byddai'r adeilad 2 lawr ar gyfer yr Adran Iau a dywedodd wrth yr Aelodau fod y cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd wedi'u gwneud er mwyn diogelu faint o fannau awyr agored sydd ar y safle i ddiwallu anghenion y plant a'r cwricwlwm. Cyfeiriwyd at yr effaith ar ysgolion eraill mewn perthynas â darpariaeth Cyfrwng Ffydd a dywedwyd wrth y Pwyllgor Craffu fod digon o alw am Ysgolion Ffydd a Chyfrwng Cymraeg yng Nghaerffili ac ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bellach ar yr ysgolion hyn gan eu bod yn arbenigo yn eu maes darpariaeth.

Yn ystod y ddadl, gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad a rhagor o wybodaeth am nifer o faterion ac ymatebodd Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd. Rhoddodd Rheolwr Ysgolion yr

21ain Ganrif eglurhad mewn perthynas â datgomisiynu Ysgol Iau Llancaeath a'r effaith ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhawyd nad oedd arolwg cyflwr wedi'i gynnal ar hen safle Ysgol Pontllan-fraith (safle arfaethedig ar gyfer y Ganolfan i Ddysgwyr sy'n agored i niwed) oherwydd bod yr ysgol wedi'i datgan yn warged ar y pryd, ond dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai arolwg cyflwr yn cael ei gynnal pan fydd y ddarpariaeth ar waith. Cynhaliwyd arolwg o'r safle arfaethedig er mwyn canfod cost y cynnig.

Gofynnwyd am ragor o wybodaeth mewn perthynas â'r garfan bresennol o fyfyrwyr sy'n derbyn hyfforddiant cartref ar hyn o bryd. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Swyddog Addysg wrth yr Aelodau fod y wybodaeth yn ymwneud â hyfforddiant yn y gymuned yn hytrach na hyfforddiant dewisol a rhoddwyd rhesymau dros gael mynediad i'r gwasanaeth. Clywodd yr Aelodau sut y byddai'r Ganolfan Dysgwyr sy'n Agored i Niwed yn darparu cyfleuster i ailintreiddio disgyblion o'r fath yn grwpiau bach a mwy gyda'r bwriad o alluogi rhai disgyblion i ddychwelyd i'r ysgol.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r Ganolfan Dysgwyr Sy'n Agored i Niwed yn y dyfodol yn golygu na fyddai angen darpariaeth gan unedau cyfeirio y tu allan i'r Sir mwyach. Dywedodd y Prif Swyddog Addysg ei bod yn anodd rhagweld ond y byddai'r dull a fabwysiadwyd yn sicr yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol.

Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg y wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad a'r pecynnau ymgynghori. Rhoddodd yr Aelodau eu barn yn rhinwedd eu swydd fel 'ymgyngoreion' fel rhan o'r prosesau ymgynghori a ddilyniar ar gyfer pob un o'r 3 chynnig.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r argymhellion yn yr adroddiad gael eu cymeradwyo. Pleidleisiodd y Pwyllgor Craffu Addysg ar bob cynnig ar wahân, a fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau perthnasol ar gyfer cyflwyno pob cynnig i'r Cabinet fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Drwy bleidlais ar Microsoft Forms, cytunwyd yn unfrydol ar bob cynnig.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg yn cefnogi'r cynigion unigol a amlinellir isod:

- (i) Uno Ysgol Iau Llancaeath ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu darpariaeth Ysgol Gynradd newydd ar safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon.
- (ii) Ysgol Gynradd Plas-y-felin newydd ar y safle presennol.
- (iii) Sefydlu Canolfan ar gyfer Disgyblion Sy'n Agored i Niwed (Uned Cyfeirio Disgyblion) ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith.

## 9. CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG 2022-2032

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden yr adroddiad yn cyflwyno Cynllun Strategol arfaethedig y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) 2022-2032 a gofynnodd am sylwadau ynghylch digonolrwydd gwybodaeth a thargedau er mwyn argymhell yr adroddiad i'r Cabinet. Hysbyswyd yr Aelodau bod y CSCA yn ofyniad statudol a'r nod oedd cyfrannu at dargedau gofynnol Llywodraeth Cymru o 26% ar gyfer dysgwyr ym mlwyddyn 1 erbyn 2032 er mwyn cyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Er mwyn cyrraedd y targed uchelgeisiol hwn, bydd angen i ni adeiladu Ysgol Gynradd newydd ac ehangu eraill i greu'r lleoedd. Hysbyswyd y Pwyllgor Craffu hefyd y bydd angen cynllun cyfathrebu i gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar y lleoedd hynny gan ddechrau gyda chyfleoedd ychwanegol a darpariaeth ychwanegol yn y blynyddoedd cynnar. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi creu cyllid cyfalaf ychwanegol ochr yn ochr â Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif a fydd yn cael ei chynllunio'n ofalus i sicrhau bod unrhyw effaith ar ysgolion cyfrwng Saesneg yn

cael ei lleihau. Cofnododd yr Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden ei ddiolch i'r Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a'i thîm a hefyd i Aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg.

Cyfeiriwyd at Ganlyniad 2 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerffili a chodwyd ymholiad mewn perthynas â chategoriâu'r ysgol. Nododd Rheolwr y Blynyddoedd Cynnar fod camgymeriad yn y ddogfen a chadarnhaodd fod 2 brif gategori o ysgol ar hyn o bryd, naill ai ysgol Saesneg Categori 1 neu ysgol Gymraeg Categori 3. Nid oes unrhyw ysgolion Cymraeg / Saesneg Categori 2 sy'n darparu 50% Cymraeg a 50% Cymraeg.

Gofynnodd Aelod am y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n cael ei wneud gyda'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol i hyrwyddo Addysg fel gyrfa i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol Uwchradd a datblygu digon o staff sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r gweithlu. Mewn ymateb, tynnodd y Rheolwr Blynyddoedd Cynnar sylw at y gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn gan sefydliadau addysgu a gychwynnwyd gan Lywodraeth Cymru. Clywodd yr Aelodau am anawsterau wrth fynd i'r afael â'r mater hwn ar lefel leol ond cafodd sicrwydd y byddai Caerffili yn bwydo i mewn i'r gwaith sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol.

Rhoddodd y Pwyllgor Craffu sylwadau am ddigonolrwydd gwybodaeth a thargedau i gyflawni'r meysydd canlyniadau a chyrraedd y targed isaf o 26% yng ngharfan blwyddyn 1 erbyn 2032.

## **10. U.F.A.**

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am lyfr a ysgrifennwyd gan Dr Elin Jones o Ystrad Mynach, sy'n mynd â darllenwyr ar daith weledol drwy dros 5,000 o flynyddoedd o hanes ledled Cymru gyfan. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd y llyfr yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.00 pm.

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunir arnynt ac a gofnodir yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 10 Ionawr 2022, fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

---

CADEIRYDD